Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau

Dyddiad: 16 Ionawr 2020

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, DYDD IAU, 23 IONAWR 2020** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

**CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR HOLL AELODAU ETHOLEDIG AM 09.15 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## AGENDA

### RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 5 - 24)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2019 (copi wedi'i atodi).

**10.00 a.m. – 10.15 a.m.**

**5** **DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) MEWN PERTHYNAS Â RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 25 - 48)

I dderbyn adroddiad gan y Rheolwr Perygl Llifogydd (copi ynghlwm), i ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ddull y Cyngor ar gyfer rheoli perygl llifogydd a chydymffurfio ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol a 5 nod lles.

**10.15 a.m. – 10.45 a.m.**

**6** **Y BROSES AR GYFER SEFYDLU ARDAL GWELLA BUSNES** (Tudalennau 49 - 88)

I dderbyn adroddiad gan y Swyddog Arweiniol, Cymorth i Fusnesau a Thwf Lleol a'r Tim Datblygu Economaidd a Busnes a Rheolwr Rhaglen (copi ynghlwm) i roi gwybodaeth ynglŷn â'r broses o ffurfio Ardaloedd Gwella Busnes i alluogi'r Pwyllgor i archwilio'r broses yn fanwl.

**10.45 a.m. – 11.15 a.m.**

**~~~~~ EGWYL (11.15 a.m. – 11.25 a.m.) ~~~~~**

**7** **BAND EANG A RHWYDWEITHIAU SYMUDOL MEWN ARDALOEDD GWLEDIG** (Tudalennau 89 - 92)

I dderbyn adroddiad gan y Prif Swyddog Digidol (copi ynghlwm) i roi gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau presennol mewn perthynas â band eang a rhwydweithiau symudol mewn ardaloedd gwledig.

**11.25 a.m. – 12.00 p.m.**

**8** **SIARTER CYDYMFFURFIO CYNLLUNIO - MABWYSIADU'R DDOGFEN DERFYNOL** (Tudalennau 93 - 142)

I dderbyn adroddiad gan y Rheolwr Datblygu (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad) (copi ynghlwm) i hysbysu aelodau am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar siarter cydymffurfio cynllunio drafft Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad.

**12.00 p.m. – 12.30 p.m.**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 143 - 166)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

**12.30 p.m. – 12.40 p.m.**

**10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**12.40 p.m. – 12.45 p.m.**

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Graham Timms (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Rachel Flynn
Tina Jones
Merfyn Parry

Anton Sampson
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Cheryl Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned